Care & Repair Cymru

# GOFAL A THRWSIO YNG NGHYMRU

## 45 Mlynedd o Wella Cartrefi a Newid Bywydau





**Ein Gweledigaeth**

**Cymru lle gall pob person hŷn fyw'n annibynnol mewn cartref diogel, cynnes a chyfleus.**

Mae Care & Repair Cymru wedi cofrestru fel elusen (Rhif 1163542) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (Rhif 09574555).

02920 107580

www.careandrepair.org.uk

enquiries@careandrepair.org.uk

Care & Repair Cymru, Llawr 1af, Mariners House Trident Court Heol East Moors Caerdydd CF24 5TD



# Rhagair

**Chris Jones,**
Prif Weithredwr,
Care & Repair Cymru

**Mae eleni yn garreg filltir bwysig ar gyfer Gofal a Thrwsio, gyda 45 mlynedd wedi mynd heibio ers sefydlu Gwasanaeth Gwella Cartrefi Ferndale yn y Rhondda. Wrth ddathlu 45 mlynedd, mae'r adroddiad hwn yn mapio a rhoi manylion y daith rhwng bryd hynny a nawr. Bu'n stori o lwyddiant a thwf mudiad sydd heddiw yn cynnig gwasanaeth ym mhob rhan o Gymru, gyda gweithlu o dros 300 a gwasanaethau sy'n cyrraedd tua 40,000 o aelwydydd bob blwyddyn. Cafodd y llwyddiant hwnnw ei adeiladu ar benderfyniad i ddiwallu anghenion dwys pobl hŷn a dros y 45 mlynedd, weledigaeth a gwaith caled llawer o unigolion ymroddedig. Mae ethos y gwasanaeth dros y cyfnod hwn wedi parhau i ganolbwyntio ar unigolion, help pwrpasol wedi'i seilio ar ymweliadau cartref, a gwrando ar anghenion cleientiaid.**

Yn yr 1980au a'r 1990au, roedd yr angen yn bendant iawn yn ymwneud â mynd i'r afael ag amodau tai gwael iawn pobl hŷn ledled Cymru, yn arbennig yng nghymunedau'r Cymoedd ac ardaloedd gwledig. Yn ystod y cyfnod hwn, un o'r pryderon mwyaf oedd fod pobl hŷn yn tueddu i fyw yn y tai hynaf, gwaelaf, ond fel grŵp nhw oedd â'r cyfraddau isaf oedd yn manteisio ar y grantiau gwella cartrefi digonol oedd ar gael gan awdurdodau lleol ar draws y wlad.

Wrth i amser fynd heibio i'r 2000au ymlaen at heddiw, mae'r ffocws ar helpu pobl hŷn gydag incwm isel sy'n byw yn y tai gwaelaf wedi parhau. Fodd bynnag, wrth ochr hyn, mae'r gydnabyddiaeth o'r cysylltiad annatod rhwng tai gwael ac iechyd gwael wedi tyfu. Mae Gofal a Thrwsio bellach yn fudiad elusennol sy'n gweithredu ledled Cymru sy'n darparu gwasanaethau sy'n integreiddio tai gyda iechyd a gofal cymdeithasol mewn modd ymarferol.

Caiff ein gwaith ei gydnabod yn gynyddol fel bod yn hanfodol wrth atal neu ostwng iechyd gwael ymysg pobl hŷn a chefnogi pobl i fynd adre yn gyflymach a diogel o'r ysbyty, gostwng cyfraddau derbyn ac aildderbyn i ysbytai a meddygon teulu, yn ogystal â chefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac oedi mynediad i ofal preswyl a nyrsio.

Rydym yn falch o'r gwaith a wnawn ac yn benderfynol o dyfu, gwella, arloesi a pharhau i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn sy'n parhau i dyfu mewn nifer ac sydd angen mwy o help a chymorth flwyddyn ar flwyddyn.

# 1979
## Sefydlu'r 'Asiantaeth' gyntaf erioed




Cafodd yr asiantaeth gwella cartrefi gyntaf yng Nghymru ei sefydlu yn Ferndale yn 1979. Roedd Gwasanaeth Gwella Cartrefi Ferndale (FHIS) yn ymateb i broblemau dwys oedd yn wynebu pobl hŷn sy'n berchnogion tai ac yn byw mewn cartrefi heb fod yn ffit i bobl fyw ynddynt ac yn brin o gyfleusterau sylfaenol.



# 1980s
## Cynlluniau lleol Gofal a Thrwsio

Dilynwyd y prosiect blaengar yn Ferndale gan ddatblygu nifer o gynlluniau Gofal a Thrwsio yng Nghymru erbyn canol y 1980au. Mae'r rhain yn gynlluniau lleol, yn aml yn cael eu harwain gan gynghorau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a chymdeithasau tai.




# 1987
## Cyllid y Swyddfa Gymreig



**Home help for elderly in Wales**

THE Welsh Office is to promote ... new home improvement ... in the Principality at a ...20,000 per year.

The development of the new agencies will be led by Care and Repair Limited, a charitable organisation that is already responsible for the development of a number of successful schemes which offer practical and financial advice on home renovation, particularly to elderly people.

"I am glad that we can support the further development of housing agency services in Wales," said Welsh Under-Secretary Mr. Mark Robinson.

"We know that elderly people do not get the share of public and private finance for home improvement that they need if they are to continue to live in their homes in comfort and dignity," he said.

Caiff datblygiad cynnar Gofal a Thrwsio ei helpu drwy 'Gynllun Asiantaeth a Gynorthwyir' a gefnogwyd gan y Swyddfa Gymreig a Care & Repair Ltd oedd ar y pryd yn helpu datblygu cynlluniau yn Lloegr.

Caiff chwech o gynlluniau peilot Gofal a Thrwsio eu lansio yn 1987 a chynyddodd y nifer i ddeuddeg erbyn 1989. Mae Gofal a Thrwsio wedi ymestyn i ddau ben Cymru, gydag Asiantaethau yng Nghlwyd a Chaerdydd.

# 1991
## Geni Care & Repair Cymru



Caiff cynhadledd bwysig, 'Gofal a Thrwsio yng Nghymru – y Ffordd Ymlaen' ei chynnal ym mis Rhagfyr 1990, a fynychwyd gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, y Swyddfa Gymreig, Care & Repair Ltd, Cynghorau Sir a Dosbarth Cymru, prosiectau Gofal a Thrwsio yng Nghymru a sefydliadau academaidd.

Mae'r gynhadledd yn cytuno ar nifer o gamau pwysig yn cynnwys cyllid yn y dyfodol ac amserlen ar gyfer asiantaethau newydd Gofal a Thrwsio, a chynllun i sefydlu Care & Repair Cymru yn 1991 fel corff annibynnol a wahân, gyda lansiad ffurfiol yng Nghastell Caerdydd.










# 1990au

## Twf mudiad

Erbyn 1995 mae 20 Asiantaeth Gofal a Thrwsio yng Nghymru. Yn dilyn newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1996, mae'r blynyddoedd dilynol yn awr yn gweld asiantaethau newydd yn cael eu lansio yn Sir Fynwy ac Ynys Môn. Caiff Gofal a Thrwsio Dinefwr ei ail-enwi yn Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin.




Erbyn dechrau'r 2000au, mae gwasanaeth ar draws ledled Cymru am y tro cyntaf, gydag Asiantaeth Gofal a Thrwsio yn gweithredu ym mhob cornel o Gymru.

# 2002

## Lansio'r Rhaglen Addasiadau Brys

Caiff Rhaglen Addasiadau Brys Gofal a Thrwsio ei lansio yn 2002 i drin mân addasiadau yng nghartrefi pobl hŷn yn y sector perchennog-breswylydd neu'r sector rhent preifat. Mae'r gwasanaeth yn boblogaidd iawn gyda'r GIG a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chaiff ei ddefnyddio'n helaeth gan therapyddion galwedigaethol a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Erbyn 2030, mae gan bron hanner Asiantaethau Gofal a Thrwsio wasanaeth tasgmon yn cyflenwi'r gwaith yn uniongyrchol dan y Rhaglen Addasiadau Brys.



# 2007
## Cefnogaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol




Hwb i Gofal a Thrwsio wrth i Edwina Hart AC, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y pryd, gyhoeddi £4.36m o gyllid ar gyfer Asiantaethau yn 2007, a ddilynir yn fuan wedyn gan adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar wasanaethau cynnal a chadw cartrefi ar gyfer pobl hŷn. Wedi'i gyhoeddi yn 2009, mae'r adroddiad yn cydnabod safon gwasanaeth Rhaglen Addasiadau Brys Gofal a Thrwsio.

> **Mae tystion yn sôn am y Rhaglen Addasiadau Brys fel enghraifft dda o rymuso pobl i wneud penderfyniadau cyflym drwy ostwng biwrocratiaeth a bod â ffocws ar anghenion unigol.**




# 2010-2015
## Cryfhau nerth ein sefydliad

Yn 2010 roedd 22 Asiantaeth Gofal a Thrwsio ledled Cymru, mae Care & Repair Cymru yn cyflogi 19 o staff mewn dwy swyddfa, un yn y Gogledd a'r llall yn y De, ac yn ymuno mewn strwythur grŵp gyda Cartrefi Cymunedol Cymru a CREW.

Mae gostyngiadau grant oherwydd yr argyfwng ariannol a chyfnod o gyni yn arwain at strategaeth bum mlynedd newydd ar gyfer Gofal a Thrwsio, dan y teitl 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, 2010-2015'. Sbardunodd hyn daith tuag at sefydlu mentrau cymdeithasol, ffrydiau incwm mwy amrywiol, gostyngiadau cost a gwerthuso cryfach i ddangos effaith. Caiff y mentrau cymdeithasol cyntaf eu lansio gan Gofal a Thrwsio Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn 2011, gan gynnig gwasanaeth trwsio cartrefi i bobl a all fforddio talu, a chyflwyno gwaith sy'n derbyn cymorth grant gyda gweithwyr a gyflogir yn uniongyrchol.

Dechreuwyd uno Asiantaethau Gofal a Thrwsio yn 2014/15, gyda'r nod o ostwng costau rheoli a gorbenion i ddiogelu staff a gwasanaethau rheng-flaen. Erbyn diwedd 2016, unodd Asiantaethau Gofal a Thrwsio i 13, yn hanfodol yn dal i fod â'r un ffiniau ag awdurdodau lleol ac yn gweithredu ledled Cymru.

Yn 2015, mae Care & Repair Cymru yn gadael y strwythur grŵp ac yn dod yn elusen gofrestredig, yn diweddaru ei weledigaeth a chenhadaeth ac yn penodi swyddog codi arian i dyfu ffrydiau incwm a chyllid mwy amrywiol.








# 2015-2020

## Symud i gyllid prosiect

Yn ogystal â pharhau i gyflwyno ein gwasanaethau creiddiol gwella ac addasu cartrefi, ers 2015 mae Gofal a Thrwsio wedi amrywio darpariaeth gwasanaeth drwy brosiectau cenedlaethol a rhanbarthol mawr:

### Ymdopi'n Well: 2016 – Heddiw

Wedi'i anelu'n benodol i helpu pobl hŷn sy'n byw gyda cholled synhwyraidd i gadw'n ddiogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Hyd yma, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno 12,300 o swyddi ymarferol i gefnogi byw diogel ac annibynnol ac wedi helpu 3,300 o bobl gyda thechnoleg galluogi i gefnogi llesiant.

### Prosiect Attic: 2017–2020

Bu gwirfoddolwyr y prosiect yn helpu pobl hŷn i dacluso eu cartrefi a hel atgofion. Yn ystod ei gyfnod, symudodd y prosiect 2,000 bag o eiddo o 80 o gartrefi i wneud lle ac i ostwng damweiniau.







### Ysbyty i Gartrefi Iachach: 2019 – Heddiw

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi 14 o weithwyr achos mewn 17 ysbyty mewn pump Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae gweithwyr achos arbenigol yn gweithio gyda staff ysbyty i ddynodi cleifion sydd wedi gwella'n glinigol ond na all fynd adre oherwydd rheswm yn gysylltiedig â'u cartref neu reswm amgylcheddol. Ers 2019, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi dros 19,500 o gleifion i adael yr ysbyty yn gyflymach i gartref a addaswyd ar gyfer eu hanghenion, gan arbed dros 120,000 diwrnod gwely i GIG Cymru.

### 70+ Cymru a Hynach Nid Oerach: 2020 – Heddiw

Bu dau fersiwn o'n gwasanaeth tlodi tanwydd ac effeithiolrwydd ynni ers 2020, gan gynnig cyngor arbenigol ar wres fforddiadwy. Drwy'r gwasanaethau arbenigol hyn, ers 2020 rydym wedi cyflwyno 444 mesur mawr tebyg i osod tanciau olew newydd a 1,075 mesur bach tebyg i atal drafftiau, gan helpu dros 3,350 o aelwydydd.

# 2020-Heddiw

## Gofal a Thrwsio heddiw




Mae Care & Repair Cymru yn cyflogi 16 o bobl mewn un swyddfa ac mae bellach yn elusen genedlaethol sydd wedi ennill gwobrau. Mae'r 13 Asiantaeth Gofal a Thrwsio ledled Cymru yn cyflogi dros 300 o staff, yn cyflenwi gwasanaethau rheng-flaen mewn cymunedau ar draws Cymru. Y llynedd, cyflwynodd y mudiad Gofal a Thrwsio.

## Ein Effaith Blynyddol

**67,606**
gwasanaeth unigol wedi'u cyflenwi i bobl hŷn

**£21.8m**
o waith trwsio a gwella tai

**60,258**
o swyddi wedi eu cwblhau

**19,023**
o swyddi Rhaglen Addasiadau Brys wedi eu cwblhau

**£12.5m**
o fudd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio wedi eu sicrhau ar gyfer pobl hŷn

**91%**
yn dweud wrthym fod eu hannibyniaeth a llesiant wedi gwella



# Cefnogi pobl hŷn i gadw'n ddiogel ac annibynnol adre am fwy o amser

**Heddiw mae Gofal a Thrwsio yn cefnogi Llywodraeth Cymru, y GIG ac awdurdodau lleol i gyflawni nifer o'u blaenoriaethau.**

## Tai

### Diogelwch, trwsio ac addasu cartrefi

Bu Gofal a Thrwsio yn cyflwyno'r Rhaglen Addasiadau Brys ers 2002. Y llynedd fe wnaethom gyflenwi £21.8 miliwn o waith trwsio a gwella cartrefi, drwy 60,258 o swyddi yn cynnwys 19,023 o swyddi y Rhaglen Addasiadau Brys.

### Fframwaith addasiadau

Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos fod Gofal a Thrwsio wedi darparu 67% o'r holl waith addasu cartrefi yng Nghymru yn 2020-21. Roedd 95% o'n swyddi addasu cartrefi dan £500.

### Llwybr i gartref digonol

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Bapur Gwyn yn ymchwilio cyflwyno'r hawl i gartref digonol yng nghyfraith Cymru, yn cynnwys hygyrchedd a chyflwr tai.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae addasiadau yn cadw pobl yn ddiogel, yn atal damweiniau yn y cartref megis syrthio a helpu i osgoi pobl rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn ddiangen. Rydym yn cefnogi byw annibynnol ar gyfer pobl hŷn ac anabl.

### Cymru iachach

Er yn elusen tai, mae gan ein ymyriadau fuddion iechyd a llesiant rhag atal damweiniau i ostwng lleithder.

### Chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng

Drwy ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach, rydym yn darparu gwelliannau, gwaith trwsio ac addasu i gartrefi. Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer galluogi pobl i fynd adre yn ddiogel o ysbyty i gartrefi sy'n cefnogi adferiad parhaus.

### Gofal yn nes adre

Mae Gofal a Thrwsio yn gwella eiddo i gefnogi byw annibynnol, hwyluso pecynnau gofal a pharau adferiad yn eu cartrefi.

### Datganiad ansawdd eiddilwch

Mae ein Gwiriad Cartrefi Iach yn sicrhau y caiff pobl hŷn eu cefnogi gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn ei gwneud yn rhwyddach i fyw gyda eiddilwch.

## Tlodi Tanwydd

### Rhaglen Cartrefi Cynnes

Mae ein gwasanaeth Hynach Nid Oerach yn darparu cyngor ar effeithiolrwydd ynni a gwelliannau i gartrefi i wella gwres fforddiadwy a gostwng tlodi tanwydd.

## Uchafu Incwm

### Siarter Budd-daliadau Cymru

Y llynedd buom yn llwyddiannus yn codi £12.56m mewn budd-daliadau nad oedd yn cael eu hawlio ar gyfer ein cleientiaid. Caiff pawb sy'n derbyn ein gwasanaeth gwaith achos gynnig gwiriad budd-daliadau lles yn rhad ac am ddim yn ogystal â chymorth i gael mynediad i fathodynnau anabledd, trwyddedau teledu am ddim a chael mynediad i'r gofrestr gwasanaethau a blaenoriaeth neu dariffau cymdeithasol os yn berthnasol.

## Llesiant

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nid oes prawf modd ar ein Rhaglen Addasiadau Brys, gan gefnogi Cymru gyfartal. Mae ein gwelliannau i gartrefi ac effeithlonrwydd ynni yn golygu Cymru fwy cydnerth, a phrofwyd fod ein ymyriadau yn gwella llesiant.

### Strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio

Mae cynllun cyflenwi'r strategaeth hon yn cyfeirio at waith Gofal a Thrwsio yn cynnwys ein addasiadau, ein gwasanaeth Ysbyty i Gartref Iachach a'n mewnbwn polisi tebyg i adroddiad 'Cyflwr Tai Pobl Hŷn'.

### Fframwaith deilliannau cenedlaethol

Rydym yn mesur llesiant drwy adborth cleientiaid. Rydym hefyd yn cefnogi amodau byw drwy addasiadau a gwelliannau cartrefi, ac yn sicrhau hawl drwy uchafu incwm.

# Ymchwil a Gwybodaeth

## Ymchwil SAIL

**Mae Gofal a Thrwsio wedi cymryd rhan mewn partneriaeth ymchwil gyda Uned Gwyddoniaeth Data Meddygol Prifysgol Abertawe ers 2017.**

Fe wnaethom gysylltu data dienw o gronfa ddata genedlaethol Gofal a Thrwsio gyda SAIL (cronfa ddata cyswllt gwybodaeth ddienw ddiogel) i ddangos effaith cael a pheidio cael ymyriad Gofal a Thrwsio. Roedd y set data yn cynnwys dros 650,000 o bobl rhwng 60 a 95 oed, gyda 123,000 ohonynt yn gleientiaid Gofal a Thrwsio. Canfu'r adroddiad bod:

- Cleientiaid Gofal a Thrwsio ar gyfartaledd â risg uwch o syrthio o gymharu na'r boblogaeth heb fod yn gleientiaid Gofal a Thrwsio
- Addasiadau Gofal a Thrwsio yn gostwng gan 17% y nifer a gaiff eu derbyn i ysbyty oherwydd anafiadau
- 13% yn llai o risg o rywun yn syrthio am un flwyddyn yn dilyn ymyriad Gofal a Thrwsio
- Ymyriadau Gofal a Thrwsio yn gostwng risg o dderbyn i gartref gofal ar gyfer pobl gyda lefelau canolig neu ddifrifol o eiddilwch dros gyfnod o 1, 3 a 5 blwyddyn.

**Gallwch ddarllen yr erthyglau hyn mewn cylchgronau academaidd a gafodd eu hadolygu gan gymheiriaid yma:**

## Ymchwil Gofal a Thrwsio

### Adroddiad Cyflwr Tai Pobl Hŷn


Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r cynnydd mewn problemau tai cymhleth sy'n wynebu ein cleientiaid, a sut mae'n dod yn anos i gefnogi cleientiaid sy'n byw mewn tai mewn cyflwr gwael. Darllenwch yr adroddiad llawn yma:

### Pobl Hŷn yng Nghymru: Tlodi yng Ngaeaf 2023-24

Er cymorth y Llywodraeth, y llynedd roedd cleientiaid Gofal a Thrwsio ar gyfartaledd yn gwario 19% o'u hincwm ar danwydd a dŵr. Darllenwch yr adroddiad llawn yma:

### O Draul i Gyflwr Gwael

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i ganlyniadau hirdymor problemau bach os na chânt eu datrys, a'r diffyg datrysiadau a chymorth i gefnogi perchnogion tai i wneud atgyweiriadau. Darllenwch yr adroddiad llawn yma:



# Y Camau Nesaf i Gofal a Thrwsio

## Grant rhwyd ddiogelwch ar gyfer pobl hŷn

Mae Gofal a Thrwsio yn gynyddol yn gweld pobl hŷn yn byw mewn cartrefi sy'n anniogel a heb fod yn ffit i bobl fyw ynddynt. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru am grant rhwyd ddiogelwch i ddatrys problemau o gyflwr gwael a pheryglus lle nad oes gan y sawl sy'n byw yno y modd i dalu am y gwaith eu hunain, ac y cafodd yr holl opsiynau ar cyllid dyngarol eu hymchwilio.

## Galw uwch am addasiadau cyflym

Mewn blynyddoedd diweddar mae'r galw wedi parhau i fod yn uwch na'r adnoddau ar gyfer addasiadau bach. Dywedodd ein hasiantaethau fod eu harian blynyddol ar gyfer y Rhaglen Addasiadau Brys wedi ei ddyrannu mor gynnar â mis Hydref. Profwyd fod ein gwaith addasu cartrefi yn atal pobl rhag syrthio, cael damwain a gorfod mynd i ysbyty. Gyda phoblogaeth heneiddiol a chynyddol eiddil, mae cynyddu'r buddsoddiad yn y Rhaglen Addasiadau Brys yn parhau i fod yn ddatrysiad cost isel hanfodol i broblem.

## Cymorth ar unwaith ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn tlodi tanwydd

Drwy ein gwasanaethau cyngor ar effeithiolrwydd ynni a thlodi tanwydd, gwelwn bobl hŷn sydd angen cymorth ar unwaith i wresogi eu cartrefi. Roedd un cleient y gwnaethom ei helpu yn gwario 62% o'i holl incwm ar danwydd a dŵr. Er bod ffocws rhaglen newydd Cartrefi Cynnes ar ddatrysiadau mwy, tŷ cyfan a gwresogi carbon isel, mae pobl hŷn a gefnogwn angen datrysiadau nawr i drwsio eu boeleri a chael gwres yn eu cartrefi.

## Dros y 5 mlynedd nesaf byddwn yn:

- Parhau i fod yn elusen gydnerth ac amrywiol drwy gynnal ffrydiau cyllid cyfredol a chyfleoedd newydd
- Cadarnhau ein henw da fel llais arbenigol, darparydd gwasanaeth hanfodol a man rhagoriaeth ar gyfer addasiadau tai
- Darparu rhagoriaeth wrth gasglu, dadansoddi ac adrodd data i ddangos effaith a llywio polisi
- Tyfu a gwella ein gwaith ar lais a gwybodaeth am gleientiaid
- Datblygu ein gwasanaethau a'n henw da fel sefydliad blaenllaw ar gyfer datgarboneiddio tai preifat
- Ymwreiddio llywodraethiant da, sicrwydd ansawdd a diwylliant o ddysgu a llywodraethiant da ymhellach

**Mae'r galw am wasanaethau Gofal a Thrwsio dros flynyddoedd dilynol. Ar yr un pryd, mae'r nifer o bobl a all fforddio talu am welliannau cartref wedi gostwng. Gyda phoblogaeth yn heneiddio, mae'n hanfodol fod Gofal a Thrwsio yn parhau i chwarae ei ran wrth sicrhau deilliannau iechyd, tai a gofal cymdeithasol ledled Cymru i ostwng pwysau ar y GIG, cadw pobl hŷn yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, a chefnogi gwella hygyrchedd a chyflwr tai.**

